**Astudiaeth Achos – Cyrsiau Camau**

**Miri Morswyn Gofal Dydd Llawn, Caergybi**

Camau
Cynllun Dysgu Cymraeg Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar
Learn Welsh Scheme for Early Years Education and Childcare



Cafodd tair aelod o'n staff yn y Cylch gyfle i ddilyn cwrs Camau. Daeth Helen Mai Davies, Cydlynydd Hyfforddiant Iaith Mudiad Meithrin i gysylltiad â'r Cylch, ynghyd â'n swyddog cefnogi i roi gwybod am y cyrsiau gwahanol oedd ar gael.

Mae Miri Morswyn yn ddarparwyr gofal dydd llawn, sydd yn cynnig gofal ac addysg i blant o 2.5 oed hyd at eu cyfnod yn cychwyn yn yr ysgol gynradd. Yn arferol fe ânt ymlaen i Ysgol Gymraeg Morswyn, ac mae'r Cylch wedi ei leoli ar safle'r ysgol yn nhref Caergybi. Mae'r berthynas â'r ysgol yn iach ac yn adeiladol iawn ac mae'r ddau yn leoliad yn chwarae rhan allweddol yn ffynniant a dyfodol y Gymraeg yn y dref.

Roedd pob un ohonom ni â diddordeb dilyn cwrs Uwch gan ein bod i gyd yn medru siarad Cymraeg, ond roedden ni am godi ein hyder a gwella ein sgiliau iaith yn y lleoliad. Roedd hwn yn gyfle gwych i wneud hynny am sawl rheswm. Roedd rhai ohonom ni hefyd yn awyddus i fedru defnyddio mwy o'r Gymraeg y tu allan i'r lleoliad, felly dyma amser i roi sglein ar ein sgiliau iaith, ac atgoffa ein hunain am rhai arferion oedd wedi llithro!

Cawson fanylion am y cwrs gan Mudiad Meithrin ar ôl cofrestru, ac fe drefnwyd fod ein tiwtor, Non yn dod i'n lleoliad i gynnal y cwrs. Roedd hynny'n gweithio'n dda i ni gan ein bod yn medru dysgu o fewn awyrgylch y lleoliad ac adnabod sut allen ni roi'r hyn roedden ni wedi ei ddysgu ar ôl bob wythnos ar waith. Roedd hyn hefyd yn golygu ein bod yn medru gweithio o gwmpas gofynion gofal y plant yn y lleoliad a sicrhau rota staffio hwylus. O safbwynt personol, roedd hefyd yn golygu nad oedd angen trefnu gofal plant gyda'r nos neu ar benwythnos, a theithio ar ôl diwrnod brysur o waith!

Roedden ni i gyd dipyn bach yn nerfus ar y dechrau – dim yn siwr beth i'w ddisgwyl ac ofn gwneud camgymeriadau neu gael rhywbeth yn anghywir! Ond roedd Non yn gyfeillgar iawn ac fe wnaeth yn siwr ei bod yn ein cefnogi ar hyd y ffordd. Roedd hi'n egluro pethau'n dda ac roedd yn hawdd i'w dilyn a gwrando. Roedd y cwrs hefyd yn hawdd i'w ddilyn ac fe ddysgon ni eiriau newydd, mwy syml neu gliriach ar gyfer eu defnyddio yn y lleoliad. Roedd y dull dysgu hefyd yn cynnwys taflenni i ni fedru dal ati i ddysgu ar ôl y wers ac edrych yn ôl i gofio ambell i beth. Wnaethon ni erioed deimlo'n wirion wrth wneud camgymeriad, neu cam-ddehongli gair ac fe gawson ni lawer o hwyl yn dilyn y cwrs.

Rydym ni i gyd yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y lleoliad ac yn y gwaith. Mae'r Rheolwr yn fwy hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i staff sydd yn arfer da, ac yn modelu disgwyliadau o fewn y tîm.

Byddai ambell aelod o staff yn gwerthfawrogi mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r lleoliad. Bydd Mudiad Meithrin yn ystyried cyfleoedd posib i wneud hyn a rhannu gwybodaeth berthnasol wrth adolygu datblygiad Camau i'r dyfodol.

cwlwm

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists